***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 1

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL A DIDDYMIADAU

### *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4)*

24 (1) Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 3 (ystyr "plentyn" etc.), yn is-adran (3), ar ôl ""plentyn"" mewnosoder "(ac eithrio yn adran 83(2C))".

(3) Yn adran 182 (darparu gwasanaethau eirioli: cyfyngiadau), yn is-adran (1)(d), yn lle "332BB of Ddeddf Addysg 1996" rhodder "69 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018".

(4) Yn adran 196 (gorchmynion a rheoliadau), yn is-adran (6), ar ôl paragraff (c) mewnosoder —

"(ca) y rheoliadau cyntaf a wneir o dan adran 83(2B);".

(5) Yn adran 197 (dehongli cyffredinol a mynegai), yn y diffiniad o "plentyn", ar ôl "("*child*")" mewnosoder ", ac eithrio yn adran 83(2C),".

(6) Yn Atodlen 2 (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol), yn nhabl 1—

(a) hepgorer y cofnod ar gyfer Deddf Addysg 1996 (adran 322 o'r Ddeddf honno);

(b) mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y lle priodol—

| | |
|---|---|
| "**Deddf Plant a Theuluoedd 2014** | |
| Y ddyletswydd i gydymffurfio â chais o dan adran 31, ond dim ond mewn cysylltiad â cheisiadau i arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. | Dyletswydd i gydymffurfio â chais i gydweithredu gan awdurdod lleol yn Lloegr at ddiben arfer swyddogaethau o dan Ran 3 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014." |

(c) mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y lle priodol—

| | |
|---|---|
| "**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** | |
| Y ddyletswydd i gydymffurfio â chais o dan adran 65, ond dim ond mewn cysylltiad â cheisiadau i arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. | Dyletswydd i arfer swyddogaethau i ddarparu gwybodaeth neu help arall ar gais gan awdurdod lleol at ddiben arfer swyddogaethau gan yr awdurdod lleol hwnnw o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018." |